

5



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Thema 5: Datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol Adnoddau 1–2



Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd



Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, lleoliadau meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion.

Trosolwg

Dyma'r bumed o bum thema yn *Wynebu'r her gyda'n gilydd (YGaTh)*: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion Cymru Llywodraeth Cymru. Pwrpas y pecyn cymorth yw darparu cefnogaeth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.

Mae'r thema hon yn ymwneud yn benodol â datblygu partneriaethau cymunedol a gweithio amlasiantaethol. Mae'n darparu gwybodaeth ddefnyddiol i ysgolion am ffyrdd o helpu teuluoedd i ddod o hyd i gefnogaeth ychwanegol a sut i gynllunio ar gyfer pontio mwy effeithiol gan ganolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i'r dysgwr a'i deulu. Mae gweithio mewn partneriaethau cymunedol yn gallu cefnogi gwaith yr ysgol ar ymgysylltu â theuluoedd, cryfhau'r ysgol mewn ffyrdd eraill a chyfoethogi bywyd yr ysgol.

Camau i'w cymryd

I'w ddefnyddio wrth gynllunio ymyraethau i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tlodi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Lles Dysgwyr
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3630

e-bost:

wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon yn ogystal â chanllawiau perthnasol eraill ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn dysgu.llyw.cymru/amddifadedd

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)

www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolhome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

Ailysgrifennu'r Dyfodol 2015: Blwyddyn Ymlaen (2015)

www.gov.wales/docs/dcells/publications/150630-a-year-on-cy.pdf



Cynnwys

Adnodd 1: Datblygu partneriaethau cymunedol	4
Adnodd 2: Gweithio amlasiantaethol	27

5

**Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned
a theuluoedd**

Thema 5: Adnodd 1

Datblygu partneriaethau cymunedol



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Pam gweithio gyda'ch cymuned leol?
- Dysgu oedolion yn y gymuned.
- Cymunedau yn Gyntaf.
- Gwasanaethau ieuenctid.
- Y trydydd sector.
- Cydlyniant cymunedol.
- Sut y byddai gweithio mewn partneriaeth gymunedol yn gallu digwydd yn ymarferol? Rhestr wirio i'ch helpu i gynllunio camau gweithredu.
- Gweithgaredd gweithdy – Datblygu dull strategol o weithio mewn partneriaeth gymunedol.
- Templed ar gyfer cynllunio gwaith partneriaeth cymunedol.
- Fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf.

“The lessons from research about extended schools are very clear – they strengthen the ability of families and communities to attend to young people's physical, emotional, cognitive and psychological needs.”

Coleman (2006) *Lessons from Extended Schools*

Cyflwyniad

Nid yw ysgolion yn bodoli ar wahân – maen nhw'n rhan allweddol o rwydwaith o sefydliadau statudol, sector preifat a gwirfoddol sy'n gwasanaethu ac yn cynnal y gymuned leol. Drwy feithrin partneriaethau cymunedol, mae ysgolion yn gallu creu cyfleoedd i elwa ar ffyhonnell bwysig o gefnogaeth sy'n gallu cryfhau eu hysgol. Mae nifer o fathau o rwydweithio ag asiantaethau allanol y bydd ysgolion yn cymryd rhan ynddynt.

“Mae angen pentref cyfan i fagu plentyn.”

Dihareb o Affrica

- Gweithio gyda phobl, busnesau a sefydliadau eraill yn yr ardal lle mae safle'r ysgol er mwyn cyfoethogi'r cwricwlwm, rhannu adnoddau, cael nawdd, rhedeg prosiectau ar y cyd a datblygu cyfalaf cymdeithasol. Mae hyn yn cael ei drafod yn yr adnodd hwn.
- Gweithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau. Mae hyn yn cael ei drafod yn yr adnodd **Gweithio amlasiantaethol** (Thema 5: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.
- Gweithio gydag ysgolion eraill yn eich clwstwr i hwyluso trosglwyddo rhwng ysgolion a rhannu arferion da. Mae hyn yn cael ei drafod yn yr adnodd **Trosglwyddo** (Thema 3: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn, ac mewn cyfeiriadau eraill at ddatblygu partneriaethau cymunedol rhwng ysgolion.

Pam gweithio gyda'ch cymuned leol?

Bydd gan ysgolion o leiaf bedwar rheswm da dros ddymuno datblygu partneriaethau cymunedol.

Yn gyntaf, gallant gryfhau gwaith yr ysgol ar **ymgysylltu â theuluoedd** drwy helpu ysgolion i drechu'r rhwystrau rhag ymgysylltu sydd gan deuluoedd (gweler yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn). Gallant gyfrannu arbenigedd mewn ymgysylltu â theuluoedd, cysylltiadau a dealltwriaeth o grwpiau penodol a dargedir, ac mae ganddynt y fantais ychwanegol o fod â rhywfaint o bellter rhyngddynt a'r ysgol (a hyd yn oed safle ar wahân yn y gymuned, o bosibl, lle gellid cwrdd ag aelodau o deuluoedd).

Yn ail, gallant **gryfhau'r ysgol**, gan ddod ag adnoddau a chyfoethogi'r cwricwlwm drwy gyfrannu:

- amser ac arbenigedd gwirfoddolwyr
- lleoliadau gwaith neu wybodaeth am yrfaeodd
- gweithgareddau cymunedol diddorol, syniadau newydd, a chyfalaf cymdeithasol
- rhwydweithiau defnyddiol
- nawdd neu help i godi arian neu adnoddau eraill fel mannau cyfarfod.

Yn drydydd, drwy weithio mewn partneriaethau cymunedol, mae ysgolion yn gallu **cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd y gymuned**, gan ddatblygu cydlyniant cymunedol a chyfalaf cymdeithasol a chyfrannu at ddysgu oedolion.

Yn bedwerydd, bydd ysgolion am weithio mewn partneriaethau cymunedol am ei fod yn **faes sy'n cael ei arolygu** gan Estyn ac mae hefyd yn ofynnol o dan y rheoliadau ar gynlluniau datblygu ysgolion. Mae ymgysylltu â'r gymuned wedi'i nodi yn y meysydd canlynol yn y Fframwaith Arolygu Cyffredin (gweler yr adnodd **Arolygiadau Estyn ac YGaTh** (Thema 1: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn).

1.2.3 Ymglymiad cymunedol a gwneud penderfyniadau (dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn y gymuned).

2.1.1 Diwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr/y gymuned (profiad sy'n canolbwyntio ar waith a chyfranogiad cymunedol yn y cwricwlwm).

2.3.1 Darpariaeth ar gyfer iechyd a lles (meithrin dealltwriaeth dysgwyr ynghylch eu cymuned a'u cyfraniad iddi).

2.4.1 Ethos, cydraddoldeb ac amrywiaeth (ethos cynhwysol sy'n cyfrannu at gydlyniant cymunedol).

3.3.1 Partneriaethau strategol (gweithio gyda phartneriaid i wella'r ddarpariaeth a safonau a lles dysgwyr).

3.3.2 Cynllunio, darparu adnoddau a sicrhau ansawdd ar y cyd (arferion gweithio mewn partneriaeth gan gynnwys gweithio gydag ysgolion eraill).

O dan Reoliadau'r Cynlluniau Datblygu Ysgolion (gweler yr adnodd **Cynlluniau datblygu ysgol** (Thema 1: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn) rhaid i'r cynllun datblygu ysgol nodi:

'Manylion am sut y bydd y corff llywodraethu yn ceisio cyflawni targedau gwella'r ysgol ar gyfer y flwyddyn gyfredol drwy weithio gyda ... pobl sy'n byw ac yn gweithio yn yr ardal y mae'r ysgol wedi ei lleoli ynddi.'

Mae dogfen ganllaw'r cynllun datblygu ysgol yn dweud:

'Bydd holl bartneriaid a rhanddeiliaid yr ysgol yn cyfranogi i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella.'

'Mae'n bwysig bod yr ysgol gyfan a'r gymuned ehangach yn ymwybodol o gynlluniau'r ysgol i sicrhau gwelliant.'

Dysgu oedolion yn y gymuned

Gall ysgolion gynnig adnoddau gwerthfawr mewn cymunedau ar gyfer datblygiad plant ac oedolion. Mae rhaglenni dysgu oedolion yn y gymuned a rhaglenni dysgu fel teulu hefyd yn gallu bod yn ffordd ragorol o gynnwys rhieni/gofalwyr yn natblygiad y plentyn a gallant wella sgiliau/gofalwyr a dealltwriaeth y rhiant/gofalwr a'r plentyn fel ei gilydd.

Un diffiniad posibl o 'dysgu oedolion yn y gymuned' yw cyfleoedd dysgu hyblyg i oedolion sydd wedi'u darparu mewn lleoliadau cymunedol i gwrdd ag anghenion lleol. Mae rhagor o wybodaeth ar gael am Ddysgu Oedolion yn y Gymuned yn www.llyw.cymru/topics/educationandskills/learningproviders/communitylearning/?lang=cy

Mae rhaglenni dysgu fel teulu yn cynnwys rhieni/gofalwyr a phlant mewn dysgu gyda'i gilydd. Eu nod penodol yw meithrin sgiliau sylfaenol aelodau o'r teulu yr un pryd â rhai'r plentyn. Ceir rhagor o wybodaeth am ddysgu fel teulu yn yr adnodd **Oed ysgol gynradd 7–11 – Ymgysylltu er mwyn dysgu** (Thema 4: Adnodd 2) a'r adnodd **Rhaglenni Dysgu fel Teulu** (Thema 4: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn.

Cymunedau yn Gyntaf

Mae Cymunedau yn Gyntaf¹ yn bartner allweddol posibl i ysgolion sy'n gwasanaethu ardaloedd Cystyrau Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar waith ar y cyd rhwng grwpiau bach o gymunedau sy'n cydweithio ac yn rhannu adnoddau i ymdrin â materion lleol. Clwstwr Cymunedau yn Gyntaf yw'r enw ar bob un o'r grwpiau hyn ac mae 52 ohonynt ledled Cymru. Nod y rhaglen yw cau'r bylchau o ran yr economi, addysg/sgiliau ac iechyd rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a mwyaf cefnog ac mae ganddi dri amcan strategol.

- Cymunedau ffyniannus.
- Cymunedau dysgu.
- Cymunedau iachach.

¹ Mae rhagor o wybodaeth am raglen Cymunedau yn Gyntaf a'r ardaloedd lle mae'n gweithredu ar gael yn www.llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy

Mae pob clwstwr yn paratoi cynllun cyflawni sy'n dangos sut y bydd yn gweithio i gyflawni'r tri amcan strategol ac mae gweithgareddau'n cael eu monitro'n unol â fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf. Gall gweithgareddau sy'n gyson â phob un o'r tri amcan strategol fod yn ddefnyddiol i'r ysgol yn ôl anghenion ei dysgwyr a'u teuluoedd. Rhaid cael gwybodaeth am y fframwaith canlyniadau a chynllun cyflawni'r clwstwr lleol er mwyn gallu ymwneud yn llwyddiannus â'r rhaglen Cymunedau yn Gyntaf.

Bob blwyddyn bydd pob un o'r clystyrau'n pennu ffyrdd o gynnwys pobl leol yn y rhaglen ac yn disgrifio sut y bydd gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu rhwng unigolion a sefydliadau'n helpu i sicrhau canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf (a fydd wedi'u cofnodi yn ei Gynllun Cynnwys y Gymuned).

Mae rhan o fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i chynnwys ar ddiwedd yr adnodd hwn, ynghyd ag enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch sy'n debygol o ddigwydd.

Gwasanaethau ieuenctid

Mae'r gwasanaethau ieuenctid sy'n cael eu rhedeg gan awdurdodau lleol yn bwynt cyswllt naturiol ar gyfer ysgolion. Yn aml bydd gweithwyr ieuenctid yn gallu darparu ffordd dda o gysylltu â'r cymunedau lle mae pobl yn byw. Yn yr un modd, mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cyflogi staff 'Chwarae' a gallan nhw hefyd fod yn ddefnyddiol o ran cysylltu ag ysgolion a chymunedau.

Y trydydd sector

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)² a'r Cyngorau Gwirfoddol Sirol (CVCs)³ lleol yn gallu helpu ysgolion i ddod i wybod am sefydliadau trydydd sector sy'n gweithio yn eu hardal leol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio catalog o raglenni'r trydydd sector y gall ysgolion eu defnyddio i'w helpu i ddelio ag effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol (a thalu amdanynt drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion os yw'n briodol): *Ymyraethau sydd wir yn gweithio: adnoddau gan y trydydd sector a'r sector preifat i ysgolion sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd*⁴.

Cydlyniant cymunedol

Mae dogfen Llywodraeth Cymru *Gwrthsafiad a pharch: Datblygu cydlyniant cymunedol – dealltwriaeth gyffredin ar gyfer ysgolion a'u cymunedau*⁵ yn disgrifio'r rôl sydd gan ysgolion i'w chwarae wrth hyrwyddo a chynnal cydlyniant cymunedol ac atal eithafiaeth dreisgar.

Gellir cefnogi camau i wella cydlyniant cymunedol yn yr ysgol (e.e. drwy gynnwys dysgu a gweithgareddau i hyrwyddo cydlyniant yn y cwricwlwm), a gellir cyflawni hyn hefyd drwy gydweithio â phartneriaid yn y gymuned, gan gynnwys grwpiau a sefydliadau ffydd neu hil. Dylai ysgolion ystyried demograffeg amrywiol eu hysgol ac ystyried cyfleoedd i feithrin

² www.wcva.org.uk/home?seq.lang=cy-GB

³ www.wcva.org.uk/funding/advice/cvcs?seq.lang=cy-GB

⁴ www.learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/150417-pdg-third-cy.pdf

⁵ www.llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/respectresilience/?lang=cy

perthnasoedd da a gwella lles dysgwyr drwy ymgysylltu â'r gymuned. Mae dulliau atal a ddefnyddir yn gynnar gyda theuluoedd yn gallu helpu i chwalu unrhyw stereoteipiau neu densiynau sy'n dod i'r amlwg. Gall hyn fod o gymorth mawr i ysgolion wrth gyflawni'r gofynion yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i feithrin perthnasoedd da a mynd i'r afael â gwahaniaethu, a bydd yn helpu ysgolion i gyflawni amcanion drwy gynlluniau cydraddoldeb strategol.

Diogelu plant

Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn canllawiau ar ddiogelu plant ac yn cynnal asesiadau risg priodol wrth agor yr ysgol i aelodau o'r gymuned. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant mewn ysgolion *Cadw dysgwyr yn ddiogel ar gael yn* www.llyw.cymru/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy. Mae Canllaw Diogelu Estyn ar gael yn www.estyn.gov.uk.

Rhagor o ffynonellau gwybodaeth

Safonau Rhyngwladol ar gyfer Ysgolion Cymunedol www.icecsweb.org/international-quality-standards

Mae gweithio gyda gwirfoddolwyr a'u rheoli'n gallu cymryd amser. Mae hefyd yn bwysig sicrhau bod gwirfoddolwyr yn cael eu cydnabod am roi o'u hamser. Bydd WCVA a'r Cyngor Gwirfoddol Sirol Lleol yn gallu'ch helpu i gynnal y gweithgarwch hwn.

Sut y byddai gweithio mewn partneriaeth gymunedol yn gallu digwydd yn ymarferol? Rhestr wirio i'ch helpu i gynllunio camau gweithredu

Mae'r rhestr wirio hon yn nodi nifer o weithgareddau gwahanol y gallai ysgolion eu cyflawni er mwyn datblygu a chynnal gwaith drwy bartneriaethau cymunedol. Gallwch roi sgôr am y graddau rydych chi'n cyflawni'r gweithgaredd eisoes (0 = ddim yn ei wneud, 4 = yn ei wneud yn aml), ac ystyried y camau gweithredu y gallech eu cymryd yn y dyfodol.

Sylwer bod y gweithgareddau hyn yr un fath ar y cyfan â'r rheini sydd wedi'u rhestru o dan **Thema 5** yn yr adnodd **Offeryn archwiliad uwch** (Thema 1: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn (er bod rhagor o fanylion yn y rhestr wirio isod, mae'n debyg na fyddwch chi am gwblhau'r ddwy!).

Sut y byddai gweithio mewn partneriaeth gymunedol yn gallu digwydd yn ymarferol	Sgôr 0–4	Sylwadau a chamau i'w cymryd
☐ Mae'r ysgol yn ymwneud mewn ffordd strategol â phartneriaethau cymunedol, gan gynllunio pa berthnasoedd i'w meithrin, cytuno ar ddeilliannau, rhannu adnoddau lle bo modd a gwerthuso'r effaith.		
☐ Mae'r ysgol wedi datblygu cyfeiriadur o bartneriaid allweddol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned.		
☐ Mae grwpiau cymunedol lleol yn helpu i ddenu teuluoedd at weithgareddau ysgol drwy ddarparu sgiliau, diddordebau ac arbenigedd sy'n apelio at deuluoedd ac yn gwella 'arlwy'r ysgol' yn y digwyddiadau hyn, e.e. perfformio drama neu gerddoriaeth, dewis gwahanol o luniaeth, dangos crefftau, arbenigedd TG.		
☐ Mae sefydliadau cymunedol lleol yn helpu'r ysgol yn ei gweithgareddau ymgysylltu â theuluoedd, er enghraifft drwy ei helpu i ymgysylltu â grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli a dargedir neu deuluoedd anodd eu cyrraedd. Efallai y bydd cludiant cymunedol ar gael hefyd i hwyluso hyn.		
☐ Cynhelir rhai digwyddiadau ymgysylltu â theuluoedd neu nosweithiau rhieni/gofalwyr mewn mannau cyfarfod yn y gymuned er mwyn helpu i chwalu'r rhwystrau y mae rhai rhieni/gofalwyr yn eu hwynebu am nad ydynt yn hoffi'r syniad o ddod i'r ysgol.		

Sut y byddai gweithio mewn partneriaeth gymunedol yn gallu digwydd yn ymarferol	Sgôr 0–4	Sylwadau a chatau i'w cymryd
☐ Mae teuluoedd yn cael gwybodaeth gan yr ysgol am wahanol fathau o weithgareddau a gwasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, gan gynnwys gwybodaeth drwy ddolenni yn yr adran 'Teuluoedd a'r gymuned' ar wefan yr ysgol, gan gynnwys rhai ar gyfer Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yr awdurdod lleol a chyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned.		
☐ Mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau cymunedol pwysig ac mae wedi creu perthnasoedd â'r prif grwpiau yn yr ardal gan gynnwys grwpiau ffydd.		
☐ Mae'r ysgol yn cynnal rhai o'i gweithgareddau mewn mannau cyfarfod yn y gymuned, e.e. cyfleusterau chwaraeon, theatrau ac amgueddfeydd.		
☐ Mae sefydliadau trydydd sector lleol yn cynnal prosiectau pwrpasol yn yr ysgol (e.e. i ymgysylltu â theuluoedd neu ddatblygu cydlyniant cymunedol).		
☐ Mae'r ysgol yn rhedeg nifer o brosiectau ar y cyd â Cymunedau yn Gyntaf.		
☐ Lle bo modd, mae rhai gwasanaethau cymunedol wedi'u lleoli ar safle'r ysgol er mwyn gallu eu cyrraedd yn haws a gwneud yr ysgol yn ganolbwynt i'r gymuned. Ymhlith y gwasanaethau y gellid eu cynnwys y mae cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned, crèche, Dechrau'n Deg, undebau credyd, Cyngor ar Bopeth neu Cymunedau yn Gyntaf.		
☐ Mae'r ysgol yn cynnig ei chyfleusterau ei hun yn ystod a/neu y tu allan i oriau ysgol i'w defnyddio gan grwpiau lleol, megis dosbarthiadau dysgu oedolion yn y gymuned. Er enghraifft, mae Ysgol Gynradd Doc Penfro yn hwyluso gweithgareddau dysgu rhwng 8am a 6pm yn ystod y tymor a hefyd ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau.		
☐ Mae grŵp rhieni/gofalwyr yr ysgol yn ymwneud â helpu'r ysgol i ddatblygu partneriaethau cymunedol.		
☐ Mae cynrychiolwyr o'r gymuned yn ymwneud â datblygu'r cynllun datblygu ysgol ac wedi'u cynrychioli ar y corff llywodraethu.		

Sut y byddai gweithio mewn partneriaeth gymunedol yn gallu digwydd yn ymarferol	Sgôr 0–4	Sylwadau a chymau i'w cymryd
☐ Mae'r ysgol yn cael ei gweld yn ganolbwynt i'r gymuned leol ac mae ganddi enw da yn y gymuned.		
☐ Mae siopau a busnesau lleol yn cefnogi neu'n noddi digwyddiadau cymdeithasol ac ymgyrchoedd codi arian (e.e. i ddatblygu'r maes chwarae, darllen i blant neu ailbeintio ystafell ddosbarth).		
☐ Mae busnesau lleol yn cyfrannu at ddysgu'r plant drwy gynig lleoliadau profiad gwaith neu ddod i'r ysgol i siarad am eu gwaith.		
☐ Mae'r ysgol wedi meithrin cysylltiadau â sefydliadau addysg bellach ac uwch er mwyn annog dysgwyr i ystyried opsiynau ar gyfer eu haddysg ôl-16.		
☐ Mae'r ysgol yn cydweithio â'r lleoliadau ysgol y mae'n trosglwyddo dysgwyr ohonynt ac iddynt er mwyn hwyluso'r trosglwyddo rhwng ysgolion – gweler yr adnodd Trosglwyddo (Thema 3: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn.		
☐ Mae'r ysgol yn gwneud defnydd effeithiol o weithio amlasiantaethol i gefnogi teuluoedd sy'n wynebu llu o broblemau – gweler yr adnodd Gweithio amlasiantaethol (Thema 5: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.		

Gweithgaredd gweithdy – Datblygu dull strategol o weithio mewn partneriaeth gymunedol

Diben: bydd gan bob ysgol nifer o wahanol asiantaethau statudol, sefydliadau trydydd sector, cyrff gwirfoddol a chymunedol a busnesau a allai ddarparu cefnogaeth i ddysgwyr a'u teuluoedd neu wella darpariaeth yr ysgol mewn ffyrdd eraill. Pwrpas y gweithgaredd hwn yw eich helpu i wneud y canlynol:

- nodi'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi dysgu'r plant yn y gymuned
- gwneud penderfyniadau strategol ynghylch pa bartneriaethau cymunedol i'w meithrin a'u datblygu
- rhannu'r wybodaeth hon â rhieni/gofalwyr drwy gyfeiriadur cymunedol neu arddangosfa dysgu yn y gymuned.

Pwy ddylai fod yn cymryd rhan: athrawon, grŵp rhieni/gofalwyr/cymdeithas rhieni ac athrawon/rhieni/gofalwyr, timau dysgu fel teulu neu dimau dysgu a datblygu yn y gymuned, cynrychiolwyr o'r gymuned.

Gallech chi gynnal y gweithgaredd hwn ar y cyd ag ysgolion eraill yn eich ardal/clwstwr.

Cam 1: Paratoi'r ymarfer

Enwebwch rywun yn arweinydd grŵp i arwain y ffordd drwy'r ymarfer. Gan weithio fel grŵp, neu nifer o grwpiau llai, tynnwch restr o'r holl sefydliadau, unigolion a grwpiau y mae aelodau o gymuned yr ysgol yn ymwneud â nhw eisoes neu'n gwybod amdanynt a allai fod â diddordeb yn yr ysgol. Os bydd y grŵp rhieni/gofalwyr a'r grŵp athrawon yn gwneud eu rhestr eu hunain, mae'n debygol y bydd y rhan fwyaf o'r grwpiau a sefydliadau wedi'u cynnwys. Gallai'r rhestr gynnwys:

- grwpiau plant; grwpiau'r blynyddoedd cynnar gan gynnwys Dechrau'n Deg, clybiau ar ôl ysgol, grwpiau ieuenctid, grwpiau sy'n gwisgo lifrai
- siopau a busnesau lleol, yn enwedig y rheini lle mae teuluoedd y dysgwyr yn gweithio
- clybiau/gweithgareddau chwaraeon i blant ac oedolion
- grwpiau a sefydliadau crefyddol a diwylliannol
- grwpiau gwirfoddol a chymunedol
- Cymunedau yn Gyntaf
- gwasanaethau allweddol fel meddygon, clinigau, llyfrgelloedd, deintyddion
- darparwyr dysgu oedolion a dysgu yn y gymuned
- pobl sy'n cynrychioli'r gymuned fel cynghorwyr, Aelodau Cynulliad.

Cam 2: Penderfynu pa rai o'r partneriaethau posibl i'w meithrin a'u datblygu

Coladwch y rhestrau rydych chi wedi'u gwneud. Gallech chi ddefnyddio'r templed isod. Ewch drwy'r rhestr gan drafod a yw'r bartneriaeth â phob un o'r sefydliadau'n gweithio'n barod, ac ym mha ffordd, a sut y gellid datblygu ei rôl. Ystyriwch **ym mha ffordd** yr ydych chi'n credu y bydd y bartneriaeth hon yn datblygu. A oes modd ei defnyddio i gyflawni un neu ragor o'r canlynol?

- Rhwydweithiau a sianeli cyfathrebu defnyddiol.
- Amser ac arbenigedd gwirfoddolwyr.
- Nawdd neu help i godi arian neu adnoddau eraill fel mannau cyfarfod.
- Lleoliadau gwaith neu wybodaeth am yrfaeod.
- Gweithgareddau diddorol yn y gymuned, syniadau newydd, a chyfalaf cymdeithasol.
- Cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned.
- Cydlyniant cymunedol.

Bydd eich rhestr yn un hir ac mae'n bosibl y byddwch am ei threfnu mewn rhyw ffordd drwy grwpio'r sefydliadau. Nodwch y rheini rydych chi'n credu eu bod yn cefnogi amcanion yr ysgol fwyaf ac sy'n cefnogi rhieni/gofalwyr ac yn hyrwyddo dysg a datblygiad y plant yn y gymuned.

Cam 3: Cynllunio'r gwaith partneriaeth

Gan weithio gyda'ch grŵp rhieni/gofalwyr a'r aelod o'r corff llywodraethu, dewiswch rai o'r partneriaethau hyn i weithio arnynt yn y flwyddyn nesaf. Datblygwch gynllun, gan ystyried pa fanteision y bydd y sefydliad sydd yn y bartneriaeth yn eu cael ohoni – a allwch chi gynnig rhywbeth iddo a fydd yn cynyddu'r apêl o gydweithio â chi?

Cofiwch fod Estyn yn chwilio yn ei arolygiadau am y canlynol:

- gweithio cydgysylltiedig i wella safonau a lles dysgwyr
- rolau a chyfrifoldebau clir i bob aelod o'r bartneriaeth
- ysgolion sy'n gweithio er mwyn bod yn berthnasol i'w cymuned leol
- partneriaethau strategol sy'n helpu i feithrin gallu'r ysgol i wella'n barhaus
- partneriaethau lle mae cydgysylltu da, ymddiriedaeth, cyfathrebu clir, cynllunio a rheoli effeithiol ar y cyd a rhannu adnoddau, a sicrwydd ansawdd.

Gweler hefyd yr adnodd **Arolygiadau Estyn ac YGaTh** (Thema 1: Adnodd 7). Cofiwch werthuso unrhyw brosiectau ar y cyd (gweler yr adnodd **Gwerthuso** (Thema 1: Adnodd 6) yn y pecyn cymorth hwn).

Cam 4: Rhannu'ch canfyddiadau â'r teuluoedd a'r dysgwyr

Rhannwch eich canfyddiadau, er enghraifft drwy arddangosfa gymunedol neu drwy ddatblygu cyfeiriadur cymunedol. Os byddwch yn cynnal arddangosfa gymunedol, estynnwch wahoddiad i'r grwpiau cymunedol hyn i ddigwyddiad lle gallant arddangos gwybodaeth am eu sefydliad a rhoi gwybod i bobl eraill am eu gwaith. Estynnwch wahoddiad i'r holl

deuluoedd a dysgwyr a'u hannog i ddod yno a chael gwybod am yr hyn sydd ar gael yn eu cymuned.

Os byddwch yn llunio cyfeiriadur cymunedol, gofynnwch i'r sefydliadau ar y rhestr fer am ddisgrifiad byr o'r pethau y maen nhw'n eu gwneud i gefnogi dysgu a datblygiad plant, yn ogystal â'u manylion cyswllt, a choladwch y rhain mewn cyfeiriadur dysgu yn y gymuned. Gofalwch fod y cyfeiriadur ar gael yn rhwydd i ddysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff.

Templed ar gyfer cynllunio gwaith partneriaeth cymunedol

Sefydliad yn ein cymuned	Themâu ar gyfer y gwaith	Gweithgareddau y galleu gydweithio arnynt	Y canlyniad arfaethedig i'r ysgol	Beth fyddai'r fantais i'n partner?	Sut y byddwn yn mesur yr effaith?
	- Nawdd neu help i godi arian neu adnoddau eraill fel mannau cyfarfod. - Rhwydweithiau a sianeli cyfathrebu defnyddiol. - Amser ac arbenigedd gwirfoddolwyr. - Lleoliadau gwaith neu wybodaeth am yrfaoedd. - Gweithgareddau diddorol yn y gymuned, syniadau newydd, a chyfalaf cymdeithasol. - Cyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned.	- Gweithgaredd cwricwlwm. - Trip ysgol. - Ymgysylltu â theuluoedd. - Digwyddiad cymdeithasol. - Gweithgaredd dysgu fel teulu. - Cyfathrebu gan yr ysgol. - Profiad gwaith.			

Fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf

Mae gwybodaeth ar gael am raglen Cymunedau yn Gyntaf a'r ardaloedd lle mae'n gweithredu yn www.llyw.cymru/topics/people-and-communities/communities/communitiesfirst/?lang=cy

Mae rhan o fframwaith canlyniadau Cymunedau yn Gyntaf wedi'i chynnwys isod ynghyd ag enghreifftiau o'r mathau o weithgarwch sy'n debygol o ddigwydd.

	Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau dysgu	CD1 Hybu dysgu fel teulu yn y blynyddoedd cynnar	- Grwpiau rhianta. - Cynlluniau chwarae. - Dysgu cyn ysgol. - Grwpiau rhieni/gofalwyr a phlant bach. - Grwpiau darllen cynnar.	- Plant a'u teuluoedd yn gwneud dewisiadau cadarnhaol. - Plant sy'n barod am yr ysgol. - Plant yn darllen yn amlach. - Plant yn dysgu drwy chwarae. - Cymunedau sy'n lleoedd gwell i fagu plant. - Mae amrywiaeth o brofiadau cyfoethog ar gael i blant a'u teuluoedd.	CD-MP.1.1 Rhieni/gofalwyr yn deall yn well beth mae magu plant yn ei olygu gan gynnwys pwysigrwydd dysgu cynnar. CD-MP.1.2 Rhieni/gofalwyr â mwy o allu i gefnogi anghenion dysgu a datblygu eu plant. CD-MP.1.3 Rhieni/gofalwyr yn darllen yn rheolaidd gyda'u plant. CD-MP.1.4 Rhieni/gofalwyr sy'n cwblhau cwrs magu plant.

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau dysgu	CD2	Cefnogi pobl ifanc i wneud yn dda yn yr ysgol	- Clybiau gwaith cartref. - Prosiectau pontio. - Mentora dysgu. - Prosiectau cysylltu ag ysgolion. - Grwpiau astudio.	- Mae plant a phobl ifanc yn teimlo'n gadarnhaol am yr ysgol. - Mae plant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well. - Mae dysgu'n beth cadarnhaol. - Gwelir gwerth yn yr ysgol ac mewn dysgu. - Mae plant yn cael eu cefnogi i wneud yn dda yn yr ysgol.	CD-MP.2.1 Plant a phobl ifanc sy'n gwybod ble i fynd i gael cymorth os oes ganddynt broblem yn yr ysgol. CD-MP.2.2 Plant a phobl ifanc sy'n deall yn well bwysigrwydd yr ysgol. CD-MP.2.3 Ymddygiad gwell yn yr ysgol. CD-MP.2.4 Presenoldeb gwell yn yr ysgol. CD-MP.2.5 Perfformiad academaidd gwell. CD-MP.2.6 Mae'r cleient yn ymwybodol o berygl bwllo. CD-MP.2.7 Cyfrannu at gyfle i ddatblygu'n bersonol ac yn gymdeithasol.
	CD3	Cefnogi teuluoedd i gyfrannu at addysg eu plant	- Gwaith i gefnogi rhieni/gofalwyr. - Sgiliau sylfaenol. - Grwpiau darllen. - Ymgysylltu â chymuned yr ysgol.	- Teuluoedd yn teimlo eu bod yn gallu helpu eu plant i wneud yn dda. - Rhieni/gofalwyr a theuluoedd yn teimlo'n fwy cadarnhaol ynghylch addysg eu plant. - Mae perthnasoedd cadarnhaol rhwng rhieni/gofalwyr ac ysgolion. - Rhieni/gofalwyr yn teimlo eu bod yn gallu cefnogi dysg eu plant yn well.	CD-MP.3.1 Mae rhieni/gofalwyr yn ennill cymhwyster. CD-MP.3.2 Mae rhieni/gofalwyr yn teimlo'n fwy hyderus i gefnogi'u plant. CD-MP.3.3 Rhieni/gofalwyr sy'n teimlo bod eu plant yn ymdopi'n well yn yr ysgol. CD-MP.3.4 Mae'r rhieni/gofalwyr â mwy o gysylltiad â'r ysgol. CD-MP.3.5 Rhieni/gofalwyr sy'n gwybod ble i gael help os oes gan eu plentyn broblem yn yr ysgol.

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau dysgu	CD4	Dysgu gydol oes mewn cymunedau	- Dysgu oedolion. - Saesneg ar gyfer Siaradwyr leithoedd Eraill. - Dysgu sy'n pontio'r cenedlaethau. - Prosiectau treftadaeth leol.	- Mae cymunedau'n lleoedd lle gall pobl ddysgu. - Mae dysgu ar gael i bawb. - Mae pobl yn dysgu drwy fwynhau. - Chwalu rhwystrau rhag dysgu.	CD-MP.4.1 Pobl yn ennill cymhwyster. CD-MP.4.2 Pobl yn fwy cadarnhaol am ddysgu. CD-MP.4.3 Symud ymlaen i gymhwyster uwch. CD-MP.4.4 Pobl sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd er mwyn dysgu. CD-MP.4.5 Cleientiaid sy'n cofrestru ar gyfer addysg bellach neu uwch.
	CD5	Gwella sgiliau sylfaenol oedolion	- Prosiectau llythrennedd. - Prosiectau rhifedd. - Meithrin hyder.	- Hyrwyddo sgiliau sylfaenol i bawb. - Pobl yn dechrau dysgu beth bynnag fo'u gallu. - Mae pobl yn fwy hyderus wrth ddysgu a gwneud cynnydd.	CD-MP.5.1 Sgiliau llythrennedd gwell. CD-MP.5.2 Sgiliau rhifedd gwell. CD-MP.5.3 Ennill cymhwyster. CD-MP.5.4 Pobl yn fwy cadarnhaol am ddysgu. CD-MP.5.5 Symud ymlaen i ddysgu rhagor.

Cymunedau iachach				
	Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
CI1	Cefnogi Dechrau'n Deg yn y Blynyddoedd Cynnar	• Cymorth ar gyfer rhianta. • Grwpiau plant bach. • Hybu imiwneiddio. • Cylchoedd chwarae.	• Mae plant ifanc yn tyfu'n iach ac yn byw mewn teuluoedd a chymunedau cefnogol. • Mae pobl yn cael gafael ar wahanol fathau o gymorth a gwasanaethau. • Mae chwarae'n cael ei hyrwyddo ac mae cyfleoedd i chwarae mewn mannau diogel. • Mae teuluoedd ifanc yn gwneud dewisiadau bywyd iach.	CI-MP.1.1 Mae mamau'n deall yn well bwysigrwydd iechyd yn ystod beichiogrwydd ac yn ystod y Blynyddoedd Cynnar. CI-MP.1.2 Rhieni/gofalwyr sy'n teimlo y gallant ymdopi'n well. CI-MP.1.3 Mae menywod beichiog yn gwneud newid cadarnhaol o ran eu hiechyd yn ystod beichiogrwydd. CI-MP.1.4 Menywod beichiog sy'n rhoi'r gorau i ysmegu.
CI2	Hybu lles corfforol	• Hybu gweithgarwch corfforol. • Prosiectau chwarae i bobl ifanc. • Prosiectau chwaraeon • Grwpiau dewch i gerdde. • Grwpiau ffitrwydd. • Prosiectau gordewdra.	• Mae pobl yn gorfforol iach ac yn egniol. • Mae llai o ordewdra. • Mwy o gyfranogi mewn chwaraeon.	CI-MP.2.1 Mae pobl yn ymwybodol o berygl gordewdra. CI-MP.2.2 Mae pobl ag agwedd gadarnhaol at wella'u hiechyd corfforol. CI-MP.2.3 Mwy o weithgarwch corfforol. CI-MP.2.4 Cymryd rhan yn rheolaidd mewn chwaraeon. CI-MP.2.5 Bodloni'r canllawiau ar gyfer gweithgarwch corfforol. CI-MP.2.6 Mynegai Màs y Corff (BMI) is.

	Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
CI3	Hybu lles meddyliol	- Prosiectau lleddfu straen. - Prosiectau gorbryder. - Prosiectau iselder.	- Mae lles meddyliol, emosïynol a chymdeithasol pobl yn cael ei gynnal o fewn y gymuned. - Mae pobl yn teimlo'n ddiogel. - Mae pobl yn teimlo'n iach eu meddwl. - Llai o straen a gorbryder. - Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth pan nad ydynt yn teimlo'n hwylus.	CI–MP.3.1 Mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael. CI–MP.3.2 Teimlo'n fwy cadarnhaol am eu lles meddyliol. CI–MP.3.3 Cymryd rhan mewn gweithgarwch cadarnhaol ddwywaith yr wythnos. CI–MP.3.4 Gallu rheoli eu lles yn well.
CI4	Annog bwyta'n iach	- Prosiectau bwyta'n iach. - Cyngor ar ddeiet. - Cychwyn coginio. - Cynllunio cyllidebau bwyd. - Cael gafael ar fwyd a llysiau ffres (cydweithfeydd bwyd). - Prosiectau tyfu lleol. - Defnyddio banciau bwyd.	- Mae pobl yn gwybod pa ddevisiadau i'w gwneud er mwyn cael deiet iach. - Mae pobl yn cael mwy o gyfleoedd i gael bwyd ffres. - Mwy o allu gan bobl i gael deiet cytbwys o fewn eu cyllideb. - Mae pobl yn coginio prydau â bwydydd ffres.	CI–MP.4.1 Gallu cyllidebu ar gyfer deiet iach am wythnos. CI–MP.4.2 Mwy o hyder i goginio pryd ffres. CI–MP.4.3 Bwyta llysiau neu ffrwythau ffres bob dydd. CI–MP.4.4 Coginio pryd ffres o leiaf unwaith yr wythnos. CI–MP.4.5 Cael gafael ar ffrwythau a llysiau ffres drwy gydweithfa fwyd.

Cymunedau iachach

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau iachach	CI5	Lleihau risgiau	- Prosiectau ieuencid iach. - Ymwybyddiaeth o alcohol. - Rhoi'r gorau i ysmegu. - Ymwybyddiaeth o gyffuriau. - Prosiectau iechyd rhywiol. - Sesiynau gwybodaeth. - Ymwybyddiaeth o drais domestig.	- Mae pobl yn gallu cael gafael ar wahanol fathau o gymorth a chynghor gan wasanaethau arbenigol. - Mae pobl yn ymwybodol o risgiau ac yn eu lleihau. - Mae pobl yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus. - Mae pobl yn teimlo eu bod yn gallu cael gafael ar gymorth a chefnogaeth.	CI-MP.5.1 Gwybodaeth well am risgiau. CI-MP.5.2 Mwy o wybodaeth am y cymorth sydd ar gael. CI-MP.5.3 Lleihau ymddygiad sy'n achosi risg. CI-MP.5.4 Rhoi'r gorau i ymddygiad sy'n achosi risg. CI-MP.5.5 Mae'r cleient yn cael ei gyfeirio at wasanaeth rhoi'r gorau i ysmegu neu wedi dechrau gyda gwasanaeth o'r fath.
	CI6	Cefnogi pobl (sydd ag anghenion ychwanegol) i fyw yn y gymuned	- Prosiectau sy'n pontio'r cenedlaethau. - Prosiectau gwirfoddoli. - Gwaith cymorth yn y cartref.	- Mae pobl yn teimlo'n llai ynysig. - Mae cymunedau'n darparu amgylcheddau diogel cefnogol. - Mae pobl yn cael cymorth i ymdopi gartref. - Mae gweithgarwch cymdeithasol ar gael yn lleol. - Mae pobl yn teimlo eu bod yn rhan o'u cymuned.	CI-MP.6.1 Gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chefnogaeth. CI-MP.6.2 Teimlo'n fwy diogel. CI-MP.6.3 Cymryd rhan mewn mwy o weithgareddau yn y gymuned. CI-MP.6.4 Cael cymorth i ymdopi gartref. CI-MP.6.5 Llai o ynysu cymdeithasol. CI-MP. 6.6 Mae pobl yn cael eu cefnogi i reoli eu cyflwr/cyflyrau iechyd cronig. CI-MP. 6.7 Mae pobl yn cael eu cefnogi i gael gafael ar wasanaethau iechyd yn y gymuned.

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
CFF1	Helpu pobl i ddatblygu sgiliau cyflogaeth a dod o hyd i waith	- Clybiau gwaith. - Meithrin sgiliau cyflogaeth. - Meithrin hyder. - Cyngor a chefnogaeth. - Gwirfoddoli er mwyn meithrin sgiliau cyflogaeth. - Prosiectau porth. - Ffeiriau swyddi. - Ymgysylltu â Gyrfa Cymru.	- Mae pobl yn ymwneud â meithrin sgiliau cyflogaeth wrthi'n chwilio am waith ac yn cael gwaith. - Mae gwaith yn cael ei weld yn opsiwn gan fwy o bobl sy'n byw mewn tldodi. - Ymgysylltu â phobl mewn 'grwpiau anodd eu cyrraedd'. - Mae gwasanaethau cyflogaeth prif ffwrdd ar gael yn haws.	CFF-MP.1.1 Cwblhau cyrsiau sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. CFF-MP.1.2 Ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. CFF-MP.1.3 Mwy cadarnhaol a gwell hyder ar gyfer chwilio am waith. CFF-MP.1.4 Mynd ati i gael cyngor a chefnogaeth. CFF-MP.1.5 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr at waith. CFF-MP.1.6 Cwblhau lleoliad profiad gwaith. CFF-MP.1.7 Wrthi'n chwilio am waith. CFF-MP.1.8 Cychwyn mewn swydd. CFF-MP.1.9 Yn gwybod bod y person mewn gwaith ar ôl chwe mis.	
Cymunedau ffyniannus					

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau ffyniannus	CFf2	Lleihau diweithdra ac ymddieithrio (16–24 oed)	- Prosiectau ymgysylltu. - Prosiectau mentora. - Hyfforddiant mewn sgiliau. - Prosiectau cwricwlwm amgen.	- Mae pobl ifanc yn cymryd rhan mewn hyfforddiant a chyflogaeth. - Mae pobl ifanc yn fwy hyderus wrth chwilio am waith. - Mae pobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth wrth chwilio am waith. - Mae pobl ifanc yn deall yn well beth sydd ar gael iddynt.	CFF–MP.2.1 Mynd i addysg bellach. CFF–MP.2.2 Ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â chyflogaeth. CFF–MP.2.3 Mwy cadarnhaol a gwell hyder ar gyfer chwilio am waith. CFF–MP.2.4 Gwirfoddoli'n rheolaidd fel llwybr at waith. CFF–MP.2.5 Cwblhau lleoliad profiad gwaith. CFF–MP.2.6 Wrthi'n chwilio am waith. CFF–MP.2.7 Cael cyfle gwaith drwy Twf Swyddi Cymru. CFF–MP.2.8 Cwblhau cyfle gwaith drwy Twf Swyddi Cymru. CFF–MP.2.9 Cychwyn mewn swydd. CFF–MP.2.10 Yn gwybod bod y person mewn gwaith ar ôl chwe mis.
	CFf3	Hybu cynhwysiant digidol	- Clybiau TG. - Cymorth sylfaenol i ddefnyddio'r rhwyngwyd. - Tynnu lluniau digidol. - Sgiliau digidol.	- Mae pobl yn cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn prosiectau TG yn y gymuned ac i ddefnyddio'r rhwyngwyd - Mae pobl yn fwy hyderus wrth ddefnyddio TG, gan gynnwys y rhwyngwyd.	CFF–MP.3.1 Ennill sgiliau TG sylfaenol. CFF–MP.3.2 Mwy o hyder wrth ddefnyddio cyfrifiadur. CFF–MP.3.3 Gallu defnyddio'r rhwyngwyd ar gyfer gwasanaethau ar-lein. CFF–MP.3.4 Gallu cael gafael ar wasanaethau TG. CFF–MP.3.5 Symud y tu hwnt i sgiliau TG sylfaenol, at gymhwyster TG cydnabyddedig.

Cymunedau ffyniannus				
	Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
CFf4	Cynhwysiant ariannol – gwella gallu ariannol, rheoli dyledion a chynyddu incwm	- Gwaith cynghori ar les. - Gwella'r mynediad at wasanaethau ariannol. - Rhoi cymorth i leihau costau ynni'r aelwyd. - Prosiectau cyllidebu ar gyfer aelwydydd. - Prosiectau llythrennedd ariannol.	- Mae pobl yn gallu cael cyngor ar les, gan gynnwys y rheini sydd mewn cyflogaeth. - Mae pobl yn defnyddio gwasanaethau ariannol priodol. - Mwy o ddefnydd o undebau credyd. - Mae pobl yn gallu rheoli eu harian yn well. - Mae pobl yn ymdopi â biliau ynni.	CFf–MP.4.1 Gallu/llythrennedd ariannol gwell. CFf–MP.4.2 Datblygu cyllideb wythnosol. CFf–MP.4.3 Mwy o hyder wrth reoli arian. CFf–MP.4.4 Pobl yn cynilo'n rheolaidd. CFf–MP.4.5 Lleihau/rheoli dyledion. CFf–MP.4.6 Cael cymorth i gael gafael ar y budd-daliadau y mae gan bobl hawl i'w cael. CFf–MP.4.7 Agor cyfrif gydag undeb credyd. CFf–MP.4.8 Cael benthyciad gan undeb credyd. CFf–MP.4.9 Defnyddio banciau bwyd.
CFf5	Cefnogi menter a chynlluniau bancio amser, meithrin cyfalaf cymdeithasol	Gweithgarwch i helpu i ddatblygu mentrau cymdeithasol.	- Mwy o fentrau cymdeithasol ar waith. - Pobl yn gwirfoddoli yn eu cymuned. - Pobl yn cymryd rhan mewn cynlluniau bancio amser.	CFf–MP.5.1 Gwybodaeth well ar gyfer rhedeg menter gymdeithasol. CFf–MP.5.2 Gwybodaeth well ar gyfer rhedeg busnes. CFf–MP.5.3 Cyfrannu mwy yn y gymuned drwy wirfoddoli'n rheolaidd. CFf–MP.5.4 Orlau bancio amser wedi'u bancio. CFf–MP.5.5 Mentrau cymdeithasol wedi'u sefydlu. CFf–MP.5.6 Mentrau cymdeithasol sy'n dal yn weithredol flwyddyn yn ddiweddarach. CFf–MP.5.7 Nifer y bobl sy'n mynd yn hunangyflogedig.

		Blaenoriaeth	Pa fathau o weithgarwch?	Beth fyddem yn ei weld?	Sut y byddwn yn mesur hyn?
Cymunedau ffyniannus	CFf6	Lleihau'r perygl o droseddu ymysg pobl ifanc	Gweithgareddau sy'n lleihau'r risg o droseddu gan bobl ifanc.	- Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau cadarnhaol sydd o les iddynt. - Mae pobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu'n ennill cymwysterau allgwrwicwlar. - Mwy o bobl ifanc yn peidio â throseddu.	CFf-MP.6.1 Ennill cymhwyster allgyrsiol. CFf-MP.6.2 Cyfrannu at gyfle i ddatblygu'n bersonol ac yn gymdeithasol. CFf-MP.6.3 Cymryd rhan mewn gweithgarwch cadarnhaol rheolaidd. CFf-MP.6.4 Rhoi'r gorau i droseddu.

5

**Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned
a theuluoedd**

Thema 5: Adnodd 2

Gweithio amlasiantaethol



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu.
- Pethau i'w hystyried ar gyfer Tîm o Amgylch y Teulu.
- Gweithio amlasiantaethol i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).
- Enghreifftiau o ysgolion sy'n defnyddio gweithio amlasiantaethol yn llwyddiannus i wella deilliannau addysgol a lles.

Cyflwyniad

Mae gweithio amlasiantaethol yn dod â gweithwyr proffesiynol at ei gilydd o wahanol asiantaethau i sicrhau ymarfer da wrth gydweithio. Bydd y ffordd hon o weithio'n helpu gweithwyr proffesiynol i ymdrin ag anghenion y teulu o safbwynt cyfannol a bydd yn gallu sicrhau bod yr holl bartïon sy'n gysylltiedig yn cyfrannu at gynllun gweithredu ac yn penderfynu ar gynllun gofal sy'n cwrdd â holl anghenion y plentyn neu berson ifanc.

Mae'r fideo isod gan Estyn yn dangos sut y mae un ysgol yn dathlu llwyddiant ei dull amlasiantaethol o weithio sydd wedi arwain at gyfraddau presenoldeb uwch, ymysg pethau eraill: www.estyn.gov.uk/cymraeg/arfer-orau/mynd-ir-afael-difreintedd-a-chodi-safonau/ysgolion-uwchradd-deunyddiau-hms/

“Partnership and multi-agency arrangements are an essential component of a comprehensive strategy for parental engagement.”

Goodall and Vorhaus (2011) *Review of best practice in parental engagement UK*
Department for Education

Teuluoedd yn Gyntaf a'r Tîm o Amgylch y Teulu

Mae Teuluoedd yn Gyntaf yn rhaglen arloesol sy'n hyrwyddo gwaith gan yr holl awdurdodau lleol i ddatblygu systemau amlasiantaethol effeithiol a chefnogaeth i deuluoedd, gan roi pwyslais pendant ar atal ac ymyriadau cynnar er lles teuluoedd, yn enwedig y rheini sy'n byw mewn tldi.

Un o brif elfennau'r rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf yw'r dull Tîm o Amgylch y Teulu o weithio gyda theuluoedd sydd ag anghenion cymhleth. Mae modelau Tîm o Amgylch y Teulu ar waith ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru.

Mae Tîm o Amgylch y Teulu yn dod â gweithwyr proffesiynol o bob math at ei gilydd i weithio gyda theulu er mwyn cyflawni un cynllun cymorth. Y nod yw sicrhau y bydd llai o orgyffwrdd ac anghysondeb yn y gwasanaethau a dderbynnir, gan ofalu bod anghenion y teulu'n cael eu diwallu'n gynnar, cyn cyrraedd argyfwng a allai niweidio'r plentyn.

Bydd y partneriaid mewn Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu dewis ar sail yr anghenion a nodwyd, ond gallent gynnwys:

- ymwelwyr ieched, gweithwyr ieched proffesiynol, gwasanaethau ieched meddwl, nyrsys ysgol
- gwasanaethau troseddau ieuenctid gwasanaethau cymdeithasol
- gwasanaethau ieuenctid
- gwasanaeth gofalwyr ifanc, gweithwyr canolfan blant
- gweithwyr lles proffesiynol
- gwasanaethau cynghori ar faterion ariannol/arian/budd-daliadau
- yr heddlu/swyddogion cymorth cymunedol
- gwasanaethau tai
- darparwyr cyfleoedd dysgu fel teulu
- ysgolion: gan gynnwys lleoliadau meithrin, cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig.

Mae ysgolion mewn lle da i allu cymryd rhan mewn model Tîm o Amgylch y Teulu, a gallant helpu i hyrwyddo ffordd gyfannol o ddarparu gwasanaethau er mwyn ymdrin â'r holl broblemau y gall y teulu eu hwynebu.

Mae rhai ysgolion, fel Ysgol Coedcae (gweler y fideo Estyn), yn trefnu cyfarfodydd wythnosol Tîm o Amgylch y Teulu yn yr ysgol. Gellir cael atgyfeiriadau at y rhaglen Teuluoedd yn Gyntaf gan yr ysgol, asiantaeth allanol/partner i'r ysgol, neu'r teulu ei hun.

Asesu anghenion – Er mwyn rhoi pecyn o fesurau ar waith sy'n addas i bob achos, rhaid cynnal gwerthusiad Fframwaith Asesu'r Teulu ar y Cyd (JAFF). Mae'r JAFF yn rhoi gwerthusiad cynhwysfawr o anghenion y teulu drwy asesu ei gryfderau mewn nifer o feysydd. Defnyddir y JAFF wedyn i baratoi cynllun ymyraethau addas i helpu'r teulu i drechu'r problemau y mae'n eu hwynebu. Gallai hyn gynnwys atgyfeirio at y Tîm o Amgylch y Teulu.

Pethau i'w hystyried ar gyfer Tîm o Amgylch y Teulu

- Y ffordd orau o gynnal lles staff drwy gefnogaeth a goruchwyliaeth briodol – mae rolau ymgysylltu â theuluoedd, yn enwedig os ydynt yn golygu gweithio'n agos gyda theuluoedd sydd â lluo o broblemau, yn gallu achosi gofid a blinder mewn rhai achosion. Mae lles staff yn ystyriaeth hanfodol ym mhob ysgol, ac mae'n ddigon posibl y bydd staff sy'n cyflawni rôl YGaTh yn gallu manteisio ar rwydwaith goruchwyllo neu fath arall o rwydwaith cefnogi. Mae hyn yn cael ei drafod ymhellach yn yr adnodd **Rolau staff YGaTh** (Thema 2: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.
- A ellir defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i helpu i dalu am yr amser staff sydd ei angen ar gyfer dull Tîm o Amgylch y Teulu.
- Sut i ddewis neu hyfforddi staff i sicrhau bod eu hagwedd at ddatrys problemau'n gadarnhaol a'u bod yn deall swyddogaeth pob un o'r partneriaid.
- Sut i fesur canlyniadau ymyraethau – er mwyn canfod beth sy'n llwyddiannus, a beth sy'n llai effeithiol.

- Sut i gydgyssylltu gweithio amlasiantaethol ar draws yr ardal leol neu glystyrau ysgol oherwydd gall hyn fod o gymorth i sicrhau trosglwyddo effeithiol a chadarnhaol rhwng ysgolion.
- Sut i adnabod teuluoedd sydd mewn angen a sut i wybod pryd y mae'r angen am wasanaethau ychwanegol wedi mynd heibio.
- Rhaid cydymffurfio â rheolau sy'n ymwneud â diogelu data a rhaid gwirio'n ofalus unrhyw gytundebau rhwng gwahanol bartneriaid ynghylch rhannu gwybodaeth am wrthrychau data. Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru yn rhoi cyfarwyddyd ynghylch llunio cytundebau rhannu gwybodaeth: www.waspi.org/page.cfm?orgid=702&pid=50174
- Rhaid gofalu bod y staff sy'n gysylltiedig wedi cael yr hyfforddiant priodol ar ddiogelu plant. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant mewn ysgolion *Cadw dysgwyr yn ddiogel ar gael yn* www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy. Mae Canllaw Diogelu Estyn ar gael yn www.estyn.gov.uk.

Gweithio amlasiantaethol i gefnogi dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion

Derbynnir yn gyffredinol fod ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion yn ffordd effeithiol o adnabod anghenion yr unigolyn am gymorth a phennu'r camau i'w cymryd i ddiwallu'r anghenion hynny. Gellir ei ddefnyddio mewn dull Tîm o Amgylch y Teulu ac yng nghyd-destun Teuluoedd yn Gyntaf neu ei gynnwys yn arferion gweithio'r ysgol/coleg o ddydd i ddydd.

Mae ymarfer sy'n canolbwyntio ar unigolion:

- yn golygu bod rhieni/gofalwyr ac ymarferwyr o'r holl asiantaethau perthnasol yn adnabod anghenion y plentyn neu berson ifanc am gymorth (gwasanaethau iechyd, ysgolion/ colegau, gwasanaeth addysg, gofal cymdeithasol, sefydliadau gwirfoddol) – dull amlasiantaethol
- yn ymwneud â'r plentyn neu berson ifanc cyfan yn hytrach na dim ond pennu diagnosis a chanolbwyntio ar y pethau nad yw'n gallu eu gwneud
- yn cynnwys plant a phobl ifanc a rhieni/gofalwyr yn bartneriaid wrth gynllunio.

Mae adolygiadau/sesiynau cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion:

- yn ddigwyddiadau gweithredol sydd, ymysg pethau eraill, yn tynnu sylw at bethau i'w datblygu a beth mae pawb yn ei hoffi a'i edmygu ynghylch y plentyn/person ifanc. Fodd bynnag, mae hyn yn golygu mwy na dweud pethau dymunol am y plentyn neu berson ifanc – mae'n arwain at bennu'r materion y mae angen gweithredu yn eu cylch
- yn arwain at lunio cynllun gweithredu sy'n cynnwys canlyniadau CAMPUS ac at ddynodi unigolion i gymryd pob un o'r camau gweithredu.

Enghreifftiau o ysgolion sy'n defnyddio gweithio amlasiantaethol yn llwyddiannus i wella deilliannau addysgol a lles

Astudiaethau achos o Ysgol Coedcae⁶

Roedd **Disgybl A** yn peri pryder oherwydd ei chyfradd presenoldeb a oedd yn 46 y cant ar gyfartaledd. Atgyfeiriwyd yr achos at y Tîm o Amgylch y Teulu gan nad oedd y disgybl yn dychwelyd adref gyda'r hwyr. Roedd yr heddlu wedi bod yn gysylltiedig. Cafwyd cydsyniad ar gyfer Tîm o Amgylch y Teulu drwy ymweld â'r cartref gan fod y fam yn wael iawn. O dan y Tîm o Amgylch y Teulu, roedd gweithiwr cymdeithasol yn yr ysgol wedi ymgymryd â'r achos. Drwy weithio gyda'r teulu, cafwyd gwybod am hanes o drais domestig. Am fod y fam yn wael, roedd Cymorth i Ferched wedi ymgysylltu â'r teulu ac roedd y prosiect STAR wedi darparu strategaethau ar gyfer Disgybl A i'w helpu i ffurfio perthnasoedd iach. Roedd ein gweithiwr ieuencid wedi lleoli Disgybl A mewn nifer o brosiectau i hyrwyddo ei hunan-barch a meithrin perthnasoedd cadarnhaol. Hwyluswyd hyn drwy gefnogaeth un i un.

Canlyniadau: Mae presenoldeb Disgybl A wedi gwella ac wedi cyrraedd 81 y cant eisoes. Mae Disgybl A yn hapus yn yr ysgol, mae ganddi gylch da o ffrindiau ac mae'n cyrraedd ei gradd gyffredinol mewn 90 y cant o'i phynciau. Gwaetha'r modd, bu farw mam Disgybl A yn ddiweddar. Mae'r gefnogaeth wedi llwyddo cymaint fel bod Disgybl A yn parhau i gymryd rhan yn yr holl brosiectau ac yn gwneud rhagor o gynnydd ar bresenoldeb a chyrhaeddiad academiaidd. Mae'r gwaith mewn partneriaeth wedi dangos bod cyfathrebu agored, gonestrwydd ac ymddiriedaeth yn sicr o wella cyfleoedd.

Roedd cyfradd presenoldeb **Disgybl B** yn 85 y cant a byddai'n hwyr yn cyrraedd yr ysgol yn aml. Roedd nifer y pwyntiau ymddygiad negyddol ar gynnydd, ac roedd ei ymagwedd at ddysgu'n negyddol. Cafwyd gwybod gan y fam fod ei ymddygiad yn wael yn y cartref, ei fod yn methu â chydymffurfio â rheolweithiau'r cartref, a'i fod yn gecrus ac weithiau'n ymosodol tuag at frodyr a chwiorydd. O dan y Tîm o Amgylch y Teulu fe ymgysylltodd nyrs a gweithiwr cymdeithasol yr ysgol â'r disgybl a'r teulu. Roedd cyfweiliadau ar faterion penodol, archwiliadau iechyd ac atgyfeiriad at y clinig iechyd wedi dangos bod anhwylder cysgu arno a oedd heb gael ei ddiagnosio cynt. Rhoddwyd meddyginiaeth ar bresgripsiwn.

Canlyniadau: Mae Disgybl B yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon yn awr. Mae ei gyfradd presenoldeb wedi codi o 85 y cant i 94 y cant. Mae'r adolygiad diweddaraf o gynnydd wedi dangos gwelliant mawr o ran canolbwyntio, ymddygiad a dysgu. Mae bywyd y cartref yn fwy tawel o lawer, mae Disgybl B yn cysgu'n dda ac mae'n awyddus i ddod i'r ysgol.

⁶ O'r cyflwyniad PowerPoint *Mynd i'r afael â thlodi drwy ddull amlasiantaeth* – Ysgol Coedcae School yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/darparwr/6694050

Astudiaeth achos: Gwaith amlasiantaethol yn Ysgol Gynradd Treorci**Wedi'i addasu o *Gweithio gyda'n gilydd i fynd i'r afael ag effaith tlodi ar gyflawniad addysgol* (Estyn, 2013)⁷**

Crynodeb: Mae Ysgol Gynradd Treorci yn ysgol fro sy'n gwasanaethu cymunedau ym mlaenau Rhondda. Ceir lefelau uchel o anweithgarwch economaidd yn yr ardal hon.

Roedd uwch reolwyr wedi penodi swyddog lles ac wedi trefnu ystafell i deuluoedd er mwyn ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr difreintiedig. Mae'r ysgol yn helpu teuluoedd i fynd i'r afael â phroblemau tymor byr sy'n eu hwynebu ar y pryd gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thai, trais domestig a sefydlu rheolweithiau. Ochr yn ochr â hyn, roedd hefyd yn gwella sgiliau rhianta a sgiliau sylfaenol rhieni/gofalwyr fel eu bod yn gallu cyflawni rôl yr addysgwr cyntaf gyda'u plentyn.

Mae'r ysgol yn cydgysylltu gwasanaethau ac ymarferwyr o amgylch y plentyn a'r teulu, ac yn dangos y ffordd at arbenigwyr perthnasol, gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau o bob math sy'n darparu hyfforddiant mewn llythrennedd, rhifedd, rheolaeth ariannol, a sgiliau digidol a chymdeithasol. Mae'r ysgol wedi datblygu system i adnabod anghenion mewn teuluoedd ac olrhain cyfranogiad ac mae'n monitro'r rhan a gymerir gan rieni/gofalwyr ac effaith camau gweithredu ar ddysgwyr.

Bydd uwch reolwyr yn cwrdd â theuluoedd bob hanner tymor i drafod y cynnydd a gafwyd o ganlyniad i ymgysylltu â'r ysgol a'r asiantaethau sy'n bartneriaid iddi. Mae'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar yr effaith y mae rhieni/gofalwyr yn ei gweld o ganlyniad i hyn ar gyrhaeddiad eu plentyn a lles y teulu.

Canlyniadau: Mae rhieni/gofalwyr wedi gwneud sylwadau am y gwelliant yn ymddygiad eu plant a'r perthnasoedd gwell ag athrawon, rhieni/gofalwyr ac oedolion eraill. Ar gyfartaledd, mae'r gyfradd presenoldeb wedi codi bron chwech y cant ymysg y plant y mae eu teuluoedd wedi ymgysylltu â'r ysgol. Rhagwelir y bydd y dysgwyr yn y rhaglen sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyrraedd y lefel ddisgwyliedig ar gyfer cyflawniadau personol a chymdeithasol. Mae hyn yn drawiadol gan fod lefelau'r sgiliau personol a chymdeithasol a oedd gan y dysgwyr hyn yn isel wrth eu derbyn i'r ysgol.

Mae rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd un i un bob hanner tymor gyda'r swyddog lles, lle maent yn trafod eu taith dysgu bersonol, camau gweithredu a dyheadau. Bellach mae llawer mwy o rieni/gofalwyr yn barod i ymgysylltu â'r ysgol ac wedi ennill cymwysterau cydnabyddedig am y tro cyntaf erioed. Mae hyn wedi ennyn yr hyder sydd ei angen arnynt i gefnogi dysg eu plant.

⁷ www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/296969.4/Gweithio%20gyda'n%20gilydd%20i%20fynd%20i'r%20afael%20ag%20effaith%20tlodi%20ar%20gyflawniad%20addysgol%20-%20Rhagfyr%202013/?navmap=30,163